


# Asesu ac Adrodd ar Gyflwr y Tir

(Gaeaf 2025/26)

Er mwyn helpu cerddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus cyn mentro allan ar y mynydd yn ystod y gaeaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn dymuno penodi contractwr profiadol a chymwys i gyflawni'r briff o asesu ac adrodd ar amodau tir gaeafol ar Yr Wyddfa. Bydd y contractwr yn adrodd ar agweddau megis y tywydd a gorchudd eira a rhew ar lwybrau i fyny i'r copa, bob dydd Mawrth a dydd Gwener yn ystod tymor y gaeaf, gan ddechrau rhwng 11[eg] o Dachwedd 2025 a'r 28[ain] o Ebrill 2026. Ceir rhagor o fanylion am friff y contract a gofynion penodol isod.

Os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch gyda Uwch Warden (Gogledd), Simon Roberts ar 07342 705884 / Simon.roberts@eryri.llyw.cymru. Neu Warden Ardal Yr Wyddfa, Alun Gethin Jones ar 01286 872555 neu Alun.Jones@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

eryri.llyw.cymru




## Asesu ac Adrodd ar Gyflwr y Tir (Gaeaf 2025/26) – Briff y Contract

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) sy'n gyfrifol am ddarparu adroddiadau Cyflwr y Tir i'r Swyddfa Dywydd, ddwywaith yr wythnos trwy gydol tymor y gaeaf, gan ddechrau o $11^{eg}$ o Dachwedd hyd at $28^{ain}$ o Ebrill 2026. Mae adroddiadau'n cael eu harddangos ar y Tudalen Rhagolygon Tywydd Mynydd Eryri y Swyddfa Dywydd yn ogystal â gwefan APCE ac ar newyddion tywydd byw 'YrWyddfaFyw'.

Pwrpas y Cytundeb hwn fydd asesu ac adrodd ar gyflwr y tir dros y gaeaf ar hyd y prif lwybrau troed a Chopa'r Wyddfa, ***bob dydd Mawrth a dydd Gwener – gan ddechrau ar y ddydd Mawrth yr*** $11^{eg}$ ***o Dachwedd 2025 a hyd at ac yn cynnwys dydd Mawrth y*** $28^{ain}$ ***o Ebrill 2026.*** Mae APCE yn chwilio am gontractwr â chymwysterau a phrofiad addas i ddarparu adroddiadau Cyflwr Tir o ansawdd a chywirdeb uchel i'r Swyddfa Dywydd yn ogystal â thrwy gyfryngau cymdeithasol eraill cysylltiedig, ar y safle ac yn gyhoeddus, yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â chanllawiau APCE. Bydd angen targedu'r adroddiadau hyn at y mynyddwr/cerddwr dibrofiad.

Bydd angen i'r contractwr fod yn barod i gyflwyno'r adroddiadau cyflwr tir i'r dudalen we berthnasol yn syth ar ôl pob cyfnod asesu a thrwy gytundeb â staff APCE. Cyfrifoldeb y contractwr fydd uwchlwytho'r adroddiad amodau i'r platfformau a amlinellwyd. Bydd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o Systemau Rheoli Cynnwys gwefannau a'r sgil perthnasol i fformatio a strwythuro gwybodaeth yn glir ar gyfer defnyddwyr y wybodaeth.

Bydd hefyd yn ofynnol i'r contractwr bostio canlyniadau'r asesiadau ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol APCE, ar amlder o ddewis APCE.

Bydd angen cwblhau'r adroddiadau cyflwr tir ar fformat penodol a bennwyd ymlaen llaw yn unol â dewis APCE. Fodd bynnag, efallai y bydd APCE am drafod a diweddaru fformat ac ymddangosiad yr adroddiadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cynyddu eu heffeithlonrwydd a'u defnyddioldeb i aelodau'r cyhoedd. Er mai APCE fydd â'r gair olaf byddem yn disgwyl i'r contractwr fod yn fodlon rhoi ei farn a'i fewnbwn i fformat yr adroddiadau.

Bydd yr asesiadau o gyflwr y tir yn cael eu cynnal yn bennaf naill ai ar lwybrau PYG, Mwynwyr neu Lanberis, sef y llwybrau mwyaf poblogaidd i fyny'r Wyddfa. Gellir cynnal asesiadau o gyflwr y tir ar lwybrau eraill (fel Rhyd Ddu neu Watkin) ar adegau penodol ond rhaid gwneud hynny gyda chytundeb ymlaen llaw gan staff APCE.


© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Bydd gofyn i'r contractwr dynnu lluniau o gyflwr y tir a 'tywydd-wedd' tra allan ar Yr Wyddfa a darparu'r rhain i APCE at ein defnydd ni (tra bydd hawlfraint unrhyw luniau yn aros gyda'r contractwr, bydd gan APCE hawl i ddefnyddio unrhyw luniau / ffotograffau perthnasol a dynnwyd yn ystod y gwaith Asesu Cyflwr y Tir fel rhan o'r ymgyrch ac i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod yn gyffredinol). Bydd angen darparu delweddau mewn fformat JPEG neu Tiff.

Bydd disgwyl i'r contractwr gysylltu â'r cyhoedd yn ystod yr asesiadau cyflwr y ddaear, gan ddarparu cyngor diogelwch ac argymhellion fel y cytunwyd arnynt gan staff APCE. Dylid cofnodi unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiadau, gan gynnwys y tywydd, lefelau eira, materion a gafwyd, cyngor a gynigir ac ati.

Ar ôl cwblhau'r contract, bydd yn ofynnol i'r contractwr gyflwyno adroddiad manwl ar ganlyniadau menter Asesiad Tir y Gaeaf. Bydd angen i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am y tywydd a gafwyd yn ystod y cyfnod asesu, cofnodion o gyngor a roddwyd i'r cyhoedd yn ystod yr asesiadau, ac unrhyw faterion y daethpwyd ar eu traws. Bydd angen darparu'r adroddiad cyn diwedd cyfnod yr Haf 2026 (diwedd Awst) fel y gellir ystyried ei ganfyddiadau a'i argymhellion a'u hymgorffori, os oes angen, yng nghontract amodau tir gaeaf 2026-2027. Bydd disgwyl i'r contractwr gyflwyno ffeil i APCE yn cynnwys unrhyw luniau / ffotograffau sy'n berthnasol i'r gwaith a dynnwyd yn ystod yr Adroddiad Cyflwr Tir, y gellir eu defnyddio gan APCE i hyrwyddo'r gwaith neu waith cyffredinol yr Awdurdod.

Mae'n rhaid i'r contractwr allu dangos tystiolaeth bod gan bob unigolyn sy'n gwneud y gwaith gymwysterau Sgiliau Gaeaf neu Arweinydd Mynydd Gaeaf addas yn ogystal â phrofiad helaeth o fynydda yn y gaeaf.

Rhaid i'r contractwr ddarparu datganiad dull addas ac asesiad risg i gwmpasu'r gwaith a wneir, sicrhau y cedwir at systemau rheoli diogelwch bob amser a bod yswiriant addas ar waith. Rhaid i'r contractwr ddangos bod ei ddull o weithio yn cael ei ystyried yn ddigon cadarn i gwmpasu ei les ei hun a lles pobl eraill os oes angen.




Bydd disgwyl i'r contractwr gynnal perthynas a chyfathrebu'n effeithiol gyda staff perthnasol APCE drwy gydol cyfnod y contract. Bydd angen i'r contractwr hefyd fod yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw gyfathrebiadau cyhoeddus (cyfweliadau teledu a radio o bosibl) sy'n gysylltiedig â'r contract yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl yr angen. Efallai y bydd angen cyfathrebu y tu allan i ddyddiau ac oriau'r Adroddiadau Cyflwr Tir (dydd Mawrth a dydd Gwener) – fodd bynnag bydd APCE yn ymdrechu i drefnu unrhyw gyfathrebiadau/cyfweliadau yn union cyn, ar ôl neu yn ystod ymweliadau'r Adroddiad Cyflwr Tir. Bydd APCE yn trafod unrhyw ofynion cyfathrebu sydd y tu allan i'r dyddiau Adroddiad Cyflwr Tir arferol fesul achos.

Bydd y contractwr yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun (a diogelwch unrhyw staff sy'n cymryd rhan yn y contract), PPE, ac unrhyw offer perthnasol arall sy'n ofynnol i ymgymryd â'r gwaith.

**Gall y gwaith gael ei is-gontractio; fodd bynnag, bydd angen i'r prif gontractwr sicrhau ei fod yn cynnal y cyfrifoldeb cydgysylltu cyffredinol a bod yr holl amodau uchod yn cael eu bodloni.**

**Os dymunwch wneud cais am y contract uchod, darparwch gynnig ysgrifenedig, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y manylion canlynol:**

- **Manylion am sut y byddwch yn cyflawni'r briff uchod gan gynnwys darparu manylion am eich gwybodaeth, eich profiad a'r cymwysterau addas sydd gennych – yn enwedig amodau gaeaf Prydain a gwybodaeth leol am Yr Wyddfa yn ystod y gaeaf;**
- **Sut y byddech yn sicrhau diogelwch y rhai sy'n gwneud y gwaith;**
- **Sut fyddech chi'n sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu darparu'n ddwyieithog yn ogystal â'ch cyfranogiad mewn cyfathrebiadau cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg.;**
- **Cyfanswm y gost o ddarparu'r contract am y cyfnod gofynnol (asesiadau safle, adroddiadau cyflwr tir y gaeaf, unrhyw gyfweliadau cyfathrebu/cyfryngau ychwanegol ac adroddiad diwedd tymor terfynol).**
- **Y gyfradd ddyddiol am adrodd ar gyflwr y tir. (Nodwch a yw'r pris hwn yn cynnwys TAW ai peidio)**

Sylwch y bydd unrhyw fidiau am y contract yn cael eu dyfarnu a'u sgorio ar sail elfennau pris ac ansawdd y bidiau.



Cyfrifoldeb y tendrwr yw sicrhau bod ganddo ddigon o wybodaeth i gyflawni gofynion y cyflwyniad tendr hwn.

Rhaid cyfeirio pob tendr at:-

Y Cyfreithiwr a'r Swyddog Monitro,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,
Penrhyndeudraeth ,
Gwynedd.
LL48 6LF

Cynigion post i'w cyfeirio fel uchod a'u nodi'n glir **'Cyflwyniad Tendr Amodau'r Tir Dan Draed yn y Gaeaf Os gwelwch yn dda Peidiwch â'i Agor'** ar yr amlen.

Rhaid cyfeirio tendrau electronig at: cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru

Rhaid nodi cynigion yn glir **'Cyflwyniad Tendr Amodau'r Tir Dan Draed yn y Gaeaf Os gwelwch yn dda Peidiwch a'i Agor'** yn y blwch pwnc . Mae'n rhaid i'r e-bost gael ei amgryptio gyda chyfrinair. Rhaid anfon ail e-bost ar wahân sy'n cynnwys y cyfrinair.

**Dyddiad ac amser cau ar gyfer cyflwyno tendr: 12:00, Gwener 17/10/2025**

**Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw gontract ac i adennill swm unrhyw golled oddi wrth y contractwr o ganlyniad i ganslo o'r fath, os bydd y contractwr wedi cynnig, neu roi, neu gytuno i roi i unrhyw berson, unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, neu am ymatal i wneud, neu am fod wedi gwneud, neu wrthod gwneud unrhyw gamau mewn perthynas â chael neu gyflawni'r contract, neu unrhyw gontract arall gyda'r Awdurdod, neu, am ddangos neu wrthod dangos ffafriaeth, neu anffafriaeth, i unrhyw berson mewn perthynas â'r contract, neu unrhyw gontract arall gyda'r Awdurdod; neu os bydd y gweithredoedd wedi cael eu cyflawni gan unrhyw berson a gyflogir ganddo/ganddi, neu sy'n gweithredu ar ei ran/rhan (boed hynny gyda neu heb yn wybod i'r contractwr), neu, os mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r Awdurdod, y contractwr neu unrhyw berson a gyflogir ganddo/ganddi, neu sy'n gweithredu ar ei ran, eu bod wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, neu, wedi rhoi unrhyw ffi neu wobr, lle mae ei dderbyn yn drosedd o dan Adran 117(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**